Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
|---|---|
| ar gyfer | for an |
| **CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN** | **EXTRAORDINARY MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL** |
| a gynhelir yn | to be held at the |
| **SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFA'R SIR LLANGEFNI** | **COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI** |
| **DYDD IAU 2 CHWEFROR 2017** | **THURSDAY 2 FEBRUARY 2017** |
| **am 11.00 o'r gloch** | **at 11.00 am** |

# R H A G L E N

1. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

   Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2. **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

3. **RHYDDID Y SIR I WASANAETH LLONGAU TANFOR Y LLYNGES FRENHINOL**

   Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **2 CHWEFROR 2017** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **RHYDDID Y SIR I WASANAETH LLONGAU TANFOR Y LLYNGES FRENHINOL** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **I YSTYRIED DERBYN YR ARGYMHELLION** |

1. Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor Sir ar 15 Rhagfyr 2016 ynghylch y mater hwn. Penderfynwyd cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir i'r pwrpas o benderfynu ar ganiatáu Rhyddfraint y Sir i'r Gwasanaeth Llongau Tanfor y Llynges Frenhinol. Rhaid cael mwyafrif o ddwy ran o dair er mwyn pasio'r cynnig. Mae copi o'r adroddiad ynghlwm – Atodiad 1.

2. Os byddai'r Cyngor yn penderfynu bwrw mlaen, bydd y Seremoni yn cael ei gynnal yng Nghaergybi ar 30 Mehefin 2018.

**Argymhellion**

i) Argymhellir bod y Cyngor yn caniatáu Rhyddid y Sir i'r Gwasanaeth Llongau Tanfor y Llynges Frenhinol.

ii) Yn amodol ar i) uchod, bod trefniadau yn cael eu gwneud i gynnal y Seremoni Rhyddfraint y Sir yng Nghaergybi ar 30 Mehefin 2018.

Huw Jones
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
25/01/17

Atodiad 1

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **15 RHAGFYR, 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **RHYDDID Y SIR I WASANAETH LLONGAU TANFOR Y LLYNGES FRENHINOL** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **YSTYRIED CANIATÁU RHYDDID Y SIR A DERBYN YR ARGYMHELLION** |

1.0 **Rhagarweiniad**

1.1 Ym mis Rhagfyr 2013, cymeradwywyd y Rhybudd o Gynigiad isod gan y Cyngor Sir:-

*"Rydym ni, sydd wedi arwyddo isod, yn gofyn i Gyngor Sir Ynys Môn roi Rhyddid y Sir i'r Llynges Brydeinig a Chymdeithas y Llynges Fasnachol. Mae hyn i gydnabod iddynt gadw'n ddiogel y ffyrdd mordwyo a'r fasnach sy'n bodoli rhwng y Deyrnas Gyfunol a Gweddill y Byd. Dylid ystyried y seremoni Rhyddfraint hon fel digwyddiad i gofio Rhyfel Mawr 1914-18 a Choffáu 70 o flynyddoedd ers Brwydr Môr Iwerydd."*

2.0 **Ymgynghori gyda'r Llynges Frenhinol**

2.1 Yn dilyn trafodaeth gydag Arglwydd y Morlys mewn perthynas â'r mater hwn, argymhellir bod Rhyddid y Sir yn cael ei ganiatáu i Wasanaeth Llongau Tanfor y Llynges Frenhinol er mwyn cydnabod y cysylltiadau hanesyddol rhwng Ynys Môn a Gwasanaeth Llongau Tanfor y Llynges Frenhinol, e.e. colli'r llong danfor HMS Thetis ger Caergybi yn 1939.

*2.0* **Y grym i wneud y penderfyniad**

2.1 Mae gan y Cyngor Sir rym dan Adran 249 Deddf Llywodraeth Leol 1972, *"to admit to be the honorary freemen of the county or county borough, persons of distinction and persons who have in the opinion of the Council, rendered eminent services to the County or County borough".* Byddai caniatáu Rhyddid y Sir i Wasanaeth Llongau Tanfor y Llynges Frenhinol yn golygu y byddai enw Gwasanaeth Llongau Tanfor y Llynges Frenhinol yn cael ei gynnwys ar Restr Rhyddfreinwyr Anrhydeddus y Sir a byddai'r Cyngor yn rhoddi'r hawl i Wasanaeth y Llongau Tanfor orymdeithio drwy strydoedd y Sir ar unrhyw achlysur seremonïol gyda baneri'n hedfan, drymiau'n curo a bidogau'n barod.

2.2 I ganiatáu Rhyddid y Sir, mae angen trefnu protocolau a gweithdrefnau ac achlysur seremonïol er mwyn cwrdd â rhai meini prawf penodol..

Byddai angen dilyn y gweithdrefnau isod:-

Cyflwyno adroddiad i Gyfarfod Arbennig o'r Cyngor sy'n argymell y dylai'r Cyngor, gan ddefnyddio ei bwerau dan Adran 249 Deddf Llywodraeth Leol 1972, ystyried cynnig Rhyddid y Sir i Wasanaeth Llongau Tanfor y Llynges Frenhinol. Mae angen mwyafrif o ddwy ran o dair o'r Cyngor i gymeradwyo'r penderfyniad a bydd cynrychiolwyr o'r Llynges Frenhinol yn bresennol yn eu lifrai er mwyn derbyn y cynnig ar ran y Llynges Frenhinol.

## 3.0 Diwrnod y Lluoedd Arfog

3.1 Yn 2018, y Cyngor fydd yr Awdurdod arweiniol ar gyfer Diwrnod rhanbarthol y Lluoedd Arfog – digwyddiad a gynhelir mewn partneriaeth gyda'r Lluoedd Arfog i hyrwyddo/cydnabod gwaith y gymuned Lluoedd Arfog. Petai'r Cyngor yn penderfynu caniatáu Rhyddid y Sir i Wasanaeth Llongau Tanfor y Llynges Frenhinol, argymhellir y dylid cynnal y seremoni hon fel rhan o raglen Diwrnod y Lluoedd Arfog. Mae'r Diwrnod Lluoedd Arfog wedi ei raglennu i'w gynnal ar 30 Mehefin 2018.
Mae gan Gaergybi gyswllt clos gyda'r Lluoedd Arfog ac mae'n briodol bod y Diwrnod Rhanbarthol ar gyfer y Lluoedd Arfog a'r seremoni Rhyddid y Sir yn cael eu cynnal yn y dref yn 2018.

## 4.0 Goblygiadau Refeniw

4.1 Bydd angen cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith yn 2017/2018 ar oblygiadau refeniw a chostau cysylltiedig cynnal y digwyddiad ym mis Mehefin 2018; mae'n annhebygol y bydd caniatáu'r hawliau ychwanegol a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn ag unrhyw oblygiadau sylweddol.

## 5.0 Argymhellion

5.1 Bod y Cyngor yn cynnal cyfarfod arbennig i bwrpas caniatáu Rhyddid y Sir i Wasanaeth Llongau Tanfor y Llynges Frenhinol. Mae angen mwyafrif o ddwy ran o dair i gymeradwyo'r penderfyniad.

5.2 Gwahodd cynrychiolwyr o Wasanaeth Llongau Tanfor y Llynges Frenhinol i'r cyfarfod arbennig.

Huw Jones
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
5/12/16